**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-08-17 Papur 7/ Paper 7

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru

3 Mawrth 2017

Annwyl Mark,

**GOBLYGIADAU ARIANNOL BIL YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU)**

Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil yr Undebau Llafur (Cymru) ar 8 Chwefror 2017. Cytunodd y Pwyllgor i beidio â chynnal sesiynau tystiolaeth llafar pellach mewn perthynas â'r Bil hwn. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymatebion i'r ymholiadau canlynol:

- Gan nad oedd y costau gwirioneddol ar gyfer Deddf yr Undebau Llafur 2016 wedi'u cronni eto ar adeg llunio'r RIA, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ffigurau wedi'u diweddaru, os tybir bod y costau hyn yn arwyddocaol wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd yn yr asesiad effaith ar gyfer Deddf yr Undebau Llafur y DU.

Mae'r RIA ar gyfer Bil yr Undebau Llafur (Cymru) yn darparu costau cysyltleidig ar gyfer datgymhwyso'r trothwy cymorth o 40%. Mae'r RIA yn nodi nad yw'r asesiad effaith ar gyfer Deddf yr Undebau Llafur y DU yn cynnwys adolygiad manwl o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gweithredu trothwy o 40% mewn gwasanaethau cyhoeddus 'pwysig', oherwydd ansicrwydd o ran pa rolau a swyddogaethau y bydd y ddarpariaeth yn gymwys iddynt:

- A ydych yn rhagweld cyhoeddi dadansoddiad mwy manwl ar gyfer datgymhwyso'r trothwy o 40% unwaith y bydd gwybodaeth ar gael?

Gan na fydd y Pwyllgor Cyllid yn gwneud gwaith craffu pellach ar oblygiadau ariannol y Bil hwn, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir



Simon Thomas
**Cadeirydd**